ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Gorffennaf 2014

Annwyl Riant/ Warcheidwad,

YMLAEN AR ÔL DATHLU DEGAWD

Hoffem ddiolch ichi am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd diwethaf. Roedd modd i ni ddathlu deng mlwyddiant yr ysgol gyda balchder nos Wener ddiwethaf, pan gafwyd perfformiadau disglair gan lawer o ddisgyblion yr ysgol. Braf iawn hefyd oedd clywed am gyfraniad yr ysgol i'n disgyblion ar hyd y blynyddoedd.

Mae gennym le i ymfalchïo am gyflawniadau'r ysgol. Daeth yr ysgol yn gyntaf ac yn ail o blith holl ysgolion uwchradd Cymru dros ddwy flynedd yn system fesur Llywodraeth Cymru. Cawsom arolygon disglair gan Estyn, ac mae'r ysgol wedi bod sawl tro ar y blaen i holl ysgolion Abertawe mewn canlyniadau arholiad.

Ar ben hyn mae ein disgyblion wedi cael profiadau cyfoethog y tu allan i'r gwersi, gyda rhaglen lawn yn y byd chwaraeon, teithiau tramor, cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd, cymryd rhan mewn gweithgareddau antur ac awyr iach ac mewn llu o glybiau.

Mae ymroddiad ein staff wedi bod y tu hwnt i bob disgwyliad, ac rydyn ni'n gallu honni ein bod wedi rhoi pob cyfle i ddisgyblion yr ysgol ddatblygu cymeriad, datblygu yn bersonol ac yn addysgiadol, a meddu sgiliau uchel yn nwy iaith Cymru.

Bydd ein disgyblion yn gallu cymryd rhan lawn mewn gwlad lle mae'r Gymraeg yn cael lle mwy a mwy amlwg yn y byd gwaith, a'n gobaith yw y bydd ein disgyblion, maes o law, yn cychwyn cartrefi lle caiff y Gymraeg ei siarad. Bydd hyn yn gyflawniad mawr.

Bydd y flwyddyn newydd yn dechrau i ddisgyblion ddydd Mawrth yr 2ail o Fedi 2014, ac edrychwn ymlaen at groesawu ein disgyblion yn ôl am flwyddyn brysur unwaith eto. Bydd yr ysgol ar agor am 8:00yb ar gyfer diwrnodau canlyniadau Lefel A ac UG ar ddydd Iau y 14eg o Awst a TGAU ar ddydd Iau 21ain o Awst.

Dymunwn yn dda i chi dros y gwyliau, gan edrych ymlaen at flwyddyn a degawd arall llwyddiannus yn hanes yr ysgol ac yn hanes ein disgyblion.

Rydym hefyd am ddymuno pob llwyddiant i'r disgyblion sy'n ymadael â ni eleni, ac yn gobeithio y byddant yn cofio eu hamser ym Mryn Tawe gyda balchder.

Pob dymuniad da,

Heini Gruffudd
Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Simon Davies
Pennaeth Gweithredol

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601 E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth Gweithredol: Mr Simon Davies**

YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

July 2014

Dear Parent/Guardian,

PROGRESS AFTER CELEBRATING OUR TENTH ANNIVERSARY

We would like to thank you for your constant support for the school over the past years. We celebrated our tenth anniversary with pride last Friday evening, with talented performances by many of our pupils. It was also good to hear of the school's contribution to the pupils over the years.

The school's achievements are a source of pride. The school came first and second among all of Wales' secondary schools over the last two years in the Welsh Government's banding system. We have had brilliant reports by Estyn, and the school has many times led all Swansea schools in exam results.

Added to this, our pupils have had enriching experiences outside class, with a full sports programme, foreign visits, competing in the Urdd Eisteddfodau, taking part in adventure and open air activities and in a host of clubs.

The commitment of our staff is beyond all expectation, and we can claim that we are giving our pupils every opportunity to develop character, to develop personally and educationally, and to have high skills in both of Wales' languages.

Our pupils can take a full part in a country where Welsh is given an ever more prominent role in the workplace, and our hope is that our pupils, in time, will set up homes where Welsh is spoken. This will be a huge achievement.

The new year will start for pupils on Tuesday, the 2nd of September, 2014, and we look forward to welcoming our pupils back for a busy year once again. The school will be open at 8:00am for A and AS Level results on Thursday, the 14th of August and for GCSE results on Thursday the 21st of August.

We wish you well over the holidays, and look forward to another successful year and decade for the school and for our pupils.

We also which the pupils who are leaving us this year every success, and hope that they will remember their time at Bryn Tawe with pride.

Best regards,

Heini Gruffudd
Chair, Governing Body

Simon Davies
Acting Head

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601 E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth Gweithredol: Mr Simon Davies**